Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Higher Education Wales Cymru
Addysg Uwch

undeb cenedlaethol myfyrwyr cymru
national union of students wales

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 17 Tachwedd 2006

Teitl: Prifysgolion yn annog myfyrwyr i roi eu barn

Mae adroddiad newydd sy'n edrych ar sut mae prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn annog myfyrwyr i roi eu barn wedi cael ei gyhoeddi heddiw.

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), yn ystyried hefyd sut y mae ceisio barn myfyrwyr wedi helpu i ddiogelu ansawdd cyrsiau.

Dangosodd yr adroddiad fod pob un o sefydliadau addysg uwch Cymru yn ystyried bod myfyrwyr yn allweddol i wella ansawdd. Roedd systemau sy'n rhoi cynrychiolaeth i fyfyrwyr wedi'u datblygu'n dda ar y cyfan gan y sefydliadau, gyda chysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol effeithiol rhwng uwch reolwyr a Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

Nodwyd bod myfyrwyr wedi sicrhau newid ar wahanol lefelau, a gwnaeth yr adroddiad argymhellion hefyd ynghylch sut y gellid gwella cynrychiolaeth myfyrwyr.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod sefydliadau addysg uwch Cymru yn cymryd o ddifrif bwysigrwydd gwrando ar farn eu myfyrwyr, ac rydym yn croesawu hyn."

Dywedodd Becky Church, Dirprwy Lywydd NUS Cymru: "Roeddem yn falch iawn o gael y cyfle i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon ac mae'n dda gennym weld yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Mae NUS Cymru yn gweithio'n galed i sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar bob lefel o fewn Addysg Uwch ac edrychwn ymlaen at weithio gyda CCAUC ac Addysg Uwch Cymru i weld argymhellion yr adroddiad yn dwyn ffrwyth."

Meddai Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Addysg Uwch Cymru: "Rydym wrth ein bodd gyda chanlyniadau'r astudiaeth hon, sy'n ategu casgliadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr bod profiadau myfyrwyr o addysg uwch yng Nghymru o ansawdd uchel iawn. Mae prifysgolion Cymru yn parhau i werthfawrogi'r rhan a chwaraeir gan fyfyrwyr yn eu prosesau penderfynu. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad parhaus y sector i gynnal ansawdd a safonau academaidd uchel. Bydd y sefydliadau'n parhau i weithio gyda'i gilydd, gan rannu gwahanol brofiadau ac arferion, i sicrhau bod y sector yn aros yn gystadleuol yn y maes hwn".

Diwedd

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, CCAUC, ar 029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Mae'r adroddiad *Study of the Extent and Effectiveness of Existing Student Representation Structures within Higher Education Institutions across Wales (Saesneg yn unig)* ar gael ar www.hefcw.ac.uk (tudalennau Cylchlythyrau).

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.